GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
GORCHYMYN (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 8) 2022

1. Ar 5 Medi 2022 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r Mannau Parcio a nodir yn Atodlen isod ar waith.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 12 Medi 2022 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyraf, ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 8) 2022"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 12 Medi 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:
Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Ham Lane East, Llanilltud Fawr

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9am a 3pm-4pm, a rhoi'r Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho yn ei le o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9:30am a 2:30pm-4pm. Mewnosod i fap AU24

Ar ochr y gorllewin o bwynt 15 metr o'r gyffordd â Boverton Road, tua'r de-orllewin am oddeutu 75 metr.

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9am a 3pm-4pm, a rhoi'r Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn ei le. Mewnosod i fap AU24

Ar ochr y dwyrain o bwynt 15 metr o'r gyffordd â Boverton Road am ryw 40 metr tua'r de-orllewin.

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-9am a 3pm-4pm, a rhoi'r Gwaharddiad ar Stopio yn ei le o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm. Mewnosod i fap AU24

Ar ochr y dwyrain o bwynt 55 metr o'r gyffordd â Boverton Road am ryw 44 metr tua'r de-orllewin.

Dirymu Gwahardd Aros o ddydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm a rhoi'r Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg yn ei le. Mewnosod i fapiau AU24, AV23, ac AV24.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 107 metr o'r gyffordd â Boverton Road am ryw 13 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 5 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 35 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 5 metr o'r gyffordd â'r mynediad i gerbydau i faes parcio Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr am ryw 25 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 26 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol y Ddraig am ryw 23 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y gorllewin o bwynt 107 metr o'r gyffordd â Boverton Road am bellter o tua 13 metr i'r de-orllewin.

Cynnig Gwahardd Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg Mewnosod i fapiau AU24, AV23, ac AV24.
Ar ochr y de, o'r gyffordd â Boverton Road tua'r de-orllewin am oddeutu 15 metr.
Ar ochr y de o bwynt 120 metr o'r gyffordd â Boverton Road am bellter o tua 30 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 5 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y dwyrain o bwynt 40 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 25 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y dwyrain o bwynt 150 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 10 metr tua'r de-orllewin, ac yna'r de-ddwyrain.
Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â mynediad maes parcio Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr am ryw 5 metr tua'r gorllewin ac yna tua'r de-orllewin.
Ar ochr y dwyrain o bwynt 30 metr o'r gyffordd â'r mynediad i faes parcio Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr am ryw 33 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol y Ddraig am ryw 26 metr tua'r gorllewin ac yna tua'r de-orllewin.
Ar ochr y gorllewin o'r gyffordd â Boverton Road tua'r de-orllewin am oddeutu 15 metr.
Ar ochr y gorllewin o bwynt 120 metr o'r gyffordd â Boverton Road, tua'r de-orllewin am oddeutu 90 metr.
Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd ag Illtyd Avenue am oddeutu 10 metr tua'r de-ddwyrain ac yna tua'r de-orllewin.
Ar ochr y gorllewin o bwynt 130 metr o'r gyffordd ag Illtyd Avenue am oddeutu 10 metr tua'r de-orllewin ac yna tua'r gogledd-orllewin.
Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg Mewnosod i mewn i fap AV23.
Ar ochr y gorllewin o bwynt 120 metr o'r gyffordd ag Illtyd Avenue tua'r de-orllewin am oddeutu 10 metr.
Cynnig Gwahardd Aros a Llwytho – dydd Llun i ddydd Gwener 8am-5pm. Mewnosod i fapiau AU24, AV23, ac AV24.
Ar ochr y dwyrain o bwynt 65 metr o'r gyffordd â mynediad maes parcio Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr am ryw 85 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y gorllewin o bwynt 10 metr o'r gyffordd â Fitzhamon Avenue tua'r de-orllewin am oddeutu 55 metr.
Lon-Od-Nant, Llanilltud Fawr
Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dad-lwytho ar Unrhyw Adeg Mewnosod i mewn i fap AV24.
Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r gyffordd â Ham Lane East tua'r de-ddwyrain am oddeutu 10 metr.

Dyddiad: 8 Medi 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA